Gweddi dros Wcráin

Dduw Mawr a Hollalluog, derbyn ein diolchgarwch am dy ras diddiwedd tuag aton ni. Clyw ymbil ein calonnau dioddefus dros wlad a phobl Wcráin, wrth iddyn nhw wynebu ymosodiad a gormes estron. Agor llygaid y rhai hynny sydd wedi'u meddiannu gan ysbryd twyll a thrais, fel eu bod yn arswydo wrth ystyried eu gweithredoedd. Sicrha fuddugoliaeth dros y grymoedd drwg sydd wedi codi a bendithia Wcráin gyda dy roddion o ryddid, heddwch, tangnefedd, a ffyniant.

Ymbiliwn arnat, O Dduw Trugarog, i edrych gyda gras ar y rhai hynny sy'n amddiffyn eu tir gyda'r fath gwroldeb. Cofia'r mamau a'r tadau, y plant diniwed, y gweddwon a'r plant amddifad, yr anabl a'r diymadferth, y rhai sy'n ceisio lloches a noddfa, sy'n estyn allan atat ti ac at eu cyd-ddyn, gan chwilio am drugaredd a thosturi. Bendithia calonnau'r rhai sydd eisoes wedi dangos haelioni mawr a chydgefnogaeth, a'r rhai hynny sy'n paratoi i dderbyn eu brodyr a'u chwiorydd o Wcráin ar adeg angen fwyaf y wlad. Dwyn ni at ein gilydd fel dy blant, dy greadigaeth, a sefydlu o'n mewn dy nerth, dy ddoethineb a dy ddealltwriaeth. Boed mawl a gogoniant i ti, nawr a hyd byth, ac yn oes oesoedd.

Amen

Christian Aid is a key member of ACT Alliance. Eng and Wales charity no. 1105851 Scot charity no. SC039150 Company no. 5171525 Christian Aid Ireland: NI charity no. NIC101631 Company no. NI059154 and ROI charity no. 20014162 Company no. 426928 The Christian Aid name and logo are trademarks of Christian Aid. © Christian Aid June 2022 J121236